

Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru)

Adroddiad blynyddol 2024-2025

Cyflwyniad

Mae Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) yn darparu arweinyddiaeth strategol ac arweiniad arbenigol ar addysg a hyfforddiant gwaith chwarae. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gweithgareddau, cyflawniadau, heriau a thrafodaethau allweddol PETC Cymru o fis Mehefin 2024 hyd fis Mawrth 2025.

Cyflawniadau allweddol

Adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer Gwaith Chwarae

Mae PETC Cymru wedi chwarae rôl ganolog yn adolygiad NOS y DU gyfan trwy Gonsortium NOS Gwaith Chwarae'r DU. Cwblhawyd dadansoddiad swyddogaethol a disgwylir i fersiwn ddrafft o'r safonau gael ei rhyddhau i ymgynghori arni yn ystod Hydref 2025. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi cynnwys mewnbwn o'r sector gyfan, gweithdai a sefydlu grŵp ysgrifennu a grŵp cynghori NOS y pedair gwlad.

Mae'r gwaith yma'n sicrhau bod y NOS yn adlewyrchu'r hyn y mae gweithwyr chwarae wir yn ei wneud fel rhan o'u hymarfer heddiw. Bydd y safonau diwygiedig yn helpu i siapio hyfforddiant, cymwysterau a disgwyliadau ar draws y sector, gan eu gwneud yn fwy ystyrlon a pherthnasol i rolau bob dydd.

Rhaglen Hyfforddiant a Chymorth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y rhaglen tan fis Mawrth 2026, gyda'i throsglwyddiad yn parhau trwy Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs ac Aspiration Training. Gwelwyd diddordeb mawr yn y Dyfarniad Pontio i Waith Chwarae, gyda 376 o ddysgwyr yn ei gwblhau. Datblygwyd Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi newydd, gan annog hyblygrwydd ar gyfer llwybrau dysgwyr, yn cynnwys Gwaith Chwarae: Egwyddorion

ar Waith (P³) a'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP).

Mae ariannu parhaus wedi caniatáu i fwy o weithwyr chwarae gael mynediad i hyfforddiant hyblyg, rhad ac am ddim sy'n gweddu i'w anghenion a'u patrymau gweithio. Mae'r nifer uchel o gyfranogwyr yn dangos diddordeb cynyddol mewn datblygiad proffesiynol ac mae wedi cefnogi mynediad a chynnydd o fewn y sector.

Llywodraethiant gweithredol

Adolygwyd a diwygiwyd Cylch Gorchwyl PETC Cymru i adlewyrchu arferion gweithio cyfredol, cyfarfodydd hybrid a chategorïau aelodaeth diwygiedig. Drafftwyd Datganiad Cymhwysedd Galwedigaethol newydd i roi arweiniad i diwtoriaid ac aseswyr. Cafodd argymhelliad o 30 awr o DPP ei gynnwys.

Mae'r Datganiad Cymhwysedd Galwedigaethol a'r arweiniad ar DPP yn cefnogi tiwtoriaid a gweithwyr chwarae i sicrhau bod eu sgiliau'n gyfredol ac i ddiweddarau eu gwybodaeth.

Fframwaith cymorth dynodiadau

Datblygwyd a chytunwyd ar ddogfen meini prawf ar gyfer gwerthuso ceisiadau am lythyrau cefnogaeth oddi wrth gyrff dyfarnu, gan alinio gyda gofynion Cymwysterau Cymru. Bellach, mae gan PETC Cymru rôl ffurfiol wrth ddarparu llythyrau cefnogaeth ar gyfer dynodiad cymwysterau.

Trwy asesu cymwysterau'n ffurfiol ar gyfer cymeradwyaeth, mae PETC Cymru'n helpu i warchod ansawdd hyfforddiant gwaith chwarae. Mae hyn yn sicrhau bod cyrsiau a gynigir i weithwyr chwarae'n cyflawni disgwyliadau'r sector a bod ganddynt werth gwirioneddol ar gyfer cyflogwyr ac ymarferwyr.

Cydwethredu a chyfathrebu

Cynorthwyodd PETC Cymru i gynhyrchu a rhannu clipiau fideo'n hyrwyddo chwarae a gwaith chwarae mynediad agored – a gomisiynwyd gan Chwarae Cymru

– gan gefnogi ymwybyddiaeth ehangach a hunaniaeth broffesiynol. Cydlynad parhaol gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae gweithgareddau allgymorth PETC Cymru'n hybu dealltwriaeth gryfach o waith chwarae ar draws sectorau perthynol ac ymysg y cyhoedd. Mae'r adnoddau fideo yn helpu i gynyddu proffil gwaith chwarae ac yn cefnogi ymdeimlad o hunaniaeth broffesiynol ymysg ymarferwyr.

Pwyntiau trafod allweddol

Dyfodol cofrestru proffesiynol

Mae PETC Cymru'n parhau i fonitro statws cofrestru proffesiynol, sy'n dal i fod ar stop tra cynhelir yr adolygiad gweinidogol.

Cyllid a phrentisiaethau

Mae cyllid ar ôl mis Mawrth 2026 yn dal i fod yn ansicr. Mynegwyd pryderon ynghylch recriwtio a chadw dysgwyr, yn enwedig ar gyfer P³ ac L2APP. Cafwyd cydsyniad ar yr angen am ymrwymïadau cyllid mwy eglur, mwy hirdymor i sicrhau sefydlogrwydd a chapasiti i gynllunio.

Y dirwedd cymwysterau

Mae City and Guilds wedi stopio trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae. Cymeradwywyd cymwysterau Focus Awards gan Gymwysterau Cymru heb ymgynghori gyda PETC Cymru, gan ysgogi PETC Cymru i eiriol dros gael eu cynnwys mewn prosesau dynodi i'r dyfodol.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS) a'r Gorchymyn Eithriadau

Cymerodd PETC Cymru ran mewn ymgynghoriadau oedd yn ymwneud a'r Adolygiad Gweinidogol o Chwarae, yn cynnwys trafodaeth ar leoliadau mynediad agored a diogelu o dan y Gorchymyn Eithriadau. Mae PETC Cymru'n cefnogi creu cynllun cymeradwyo gorfodol ar gyfer darpariaeth heb ei rheoleiddio.

Datblygu'r gweithlu

Mynegwyd pryderon ynghylch rhwystrau i hyfforddiant wyneb yn wyneb (er enghraifft, amseru ac ôl-lenwi staff ysgol). Trafododd PETC Cymru gyfuno'r Dyfarniad a'r Dystysgrif L2APP a chynyddu hyblygrwydd i ddysgwyr.

Uchafbwyntiau aelodau'r cyngor

- **Clwb Carco:** ehangu'r gweithlu, cais ariannu clwb cynhwysol, presenoldeb cryf yn yr Eisteddfod.
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:** trosglwyddiad L2APP, cefnogi Ysgolion Chwarae-Gyfeillgar, cynllunio ar gyfer y Fforwm Gweithwyr Chwarae.
- **Bro Morgannwg:** peilot o raglen Ysgolion Chwarae-Gyfeillgar, mynd i'r afael a heriau ôl-lenwi staff.
- **Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales:** diddordeb mewn darpariaeth Lefel 1 yng Ngogledd Cymru.
- **The Playwork Foundation:** wedi cynnal CCB, sesiynau Playwork in Progress a dechrau datblygu hyfforddiant ar-lein.

Edrych ymlaen

- Cwblhau ac ymgynghori ar y NOS drafft.
- Cyfrannu at yr adolygiad o gymwysterau a phrentisiaethau gwaith chwarae.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru gydag ymgynghoriadau'r NMS a'r Gorchymyn Eithriadau.
- Atgyfnerthu arweiniad a chyfathrebiadau ar gyfer darparwyr cymwysterau a'r gweithlu gwaith chwarae.
- Monitro ac ymateb i ddatblygiadau cyllid a chofrestru.

Dyddiadau cyfarfodydd 2025

- 24 Mehefin 2025
- 23 Medi 2025
- 2 Rhagfyr 2025

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gyda chymorth AI.

Paratowyd gan Chwarae Cymru ar ran PETC Cymru.

Chwarae Cymru
Play Wales